

# Gwers 1 – Cyflwyniad



Comisiynydd  
Plant Cymru  
Children's  
Commissioner  
for Wales

## Cyflwyniad i Hawliau Plant

Lefel Gradd: CS – CA5 ADY

Teitl y Wers: Siarter Dosbarth

### **Amcan Dysgu:**

- Datblygu dealltwriaeth o Hawliau Plant
- Adnabod Comisiynydd Plant Cymru
- Creu a llofnodi Siarter Dosbarth

**Er budd y myfyrwyr, esbonio beth bydd myfyrwyr yn gallu ei wneud erbyn diwedd y wers a pham mae'n bwysig cyflawni'r amcanion hyn.**

**Bydd rhai Dysgwyr:** Yn gallu adnabod Comisiynydd Plant Cymru a chofio nifer o hawliau plant sy'n bwysig iddyn nhw.

**Bydd mwyafrif y Dysgwyr:** Yn cynnig eu syniadau ac yn dewis pa hawliau plant maen nhw'n meddwl sy'n bwysig i siarter eu dosbarth

**Bydd yr holl Ddysgwyr:** Yn ymuno i lofnodi'r contract gyda'u hathro dosbarth

### **Cwestiynau Allweddol:**

- Beth yw hawliau plant?
- Pwy yw Comisiynydd Plant Cymru?
- Pa hawliau rydych chi'n teimlo sy'n bwysig i chi?
- Gan bwy mae'r hawliau yma?

### **Deunyddiau/Adnoddau angenrheidiol:**

- Pecyn Lluniau
- Poster/Cardiau Symbolau Hawliau Plant
- Ffotograff o Gomisiynydd Plant Cymru

- Ffotograffau/gwrthrychau i gyfeirio atyn nhw
- Templed o Siarter Dosbarth

### **Cyflwyniad:**

Dangoswch lun o Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, i'r dosbarth. Esboniwch mai ei gwaith hi yw sicrhau bod holl blant Cymru yn cael mynediad i'w hawliau ac yn gallu tyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.

Fel gweithgaredd amser cylch, edrychwch ar ddetholiad o luniau o'r "pecyn lluniau" gyda'r disgyblion a thrafod ystyr bosibl – dylai'r disgyblion fod yn rhydd i gynnig eu dehongliadau eu hunain a sôn am eu profiadau personol.

Gallwch chi gefnogi'r ddealltwriaeth o bob llun â iaith arwyddion briodol, gwrthrych i gyfeirio ato neu gerdyn symbolau, a defnyddio cwestiynau addas i helpu'r disgyblion i feddwl os bydd angen.

### **Prif Weithgaredd:** *Siarter Dosbarth*

Esboniwch wrth y dosbarth fod gan holl blant Cymru hawliau plant. Hawliau plant yw rhestr o bethau mae arnoch chi eu hangen i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.

Rhannwch y poster hawliau neu'r cardiau symbolau gyda'r dosbarth, efallai byddwch am ddewis yr erthyglau mwyaf perthnasol ar gyfer gallu ac anghenion y dosbarth.

Esboniwch y gair 'Siarter' ac egluro ei fod yn bwysig i'r disgyblion greu eu Siarter Dosbarth eu hunain i feddwl am yr hawliau plant sydd bwysicaf iddyn nhw fel dosbarth.

Dylai pob disgybl ddewis hawl maen nhw'n meddwl sy'n bwysig iddyn nhw (dylai disgyblion llai galluog gael dewis o restr lai). Unwaith mae pob disgybl wedi dewis hawl, pleidleiswch drostyn nhw. Dewiswch hyd at 6 hawl y mae'r plant yn teimlo mai nhw yw'r pwysicaf. Ychwanegwch yr hawliau hynny at Siarter y Dosbarth.

Yna dylai'r holl blant lofnodi siarter y dosbarth gyda'r athro dosbarth. Gall dysgwyr sy'n methu ysgrifennu eu henw roi eu marc ag ôl bys.

Efallai y byddwch am ychwanegu symbolau Widgit/ PECS at siarter y dosbarth i helpu i gefnogi dealltwriaeth y disgyblion.

**Sesiwn Lawn:**

Crynowch beth mae'r plant wedi'i ddysgu yn y wers trwy edrych ar yr amcanion, amlygu pwysigrwydd hawliau plant a Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru.

**Dysgu Ychwanegol Pellach:**

Ewch yn ôl at amcanion y wers. Ydy'r disgyblion wedi gweithio tuag at y targedau a nodwyd neu eu cyflawni? Yn dibynnu ar eu gallu, mae'n bosib mai amcan parhaus fydd hwn.

**Gwahaniaethu:**

Yn achos dysgwyr sydd ag Anableddau Dysgu Dwys a Lluosog (PMLD) defnyddiwch wrthrychau cyfeiriadol i symboleiddio pob hawl a chefnogi dealltwriaeth. Defnyddiwch switshys i gynig llais a chyfranogiad i ddisgyblion.

Yn achos dysgwyr ag Anhwylderau Sbectwm Awstistig (ASD) – defnyddiwch symbolau Widgit / Iluniau PECS.

Creuwyd y gwersi a'r gweithgareddau yma gan Jonathan Whitchurch o Ysgol Heronsbridge mewn partneriaeth gyda Chomisiynydd Plant Cymru. Rhannwch y gwaith rydych chi'n ei wneud ar hawliau gyda'r Comisiynydd Plant drwy drydaru [@complantcymru](https://twitter.com/complantcymru) neu e-bostio [post@complantcymru.org.uk](mailto:post@complantcymru.org.uk)

